# Deddf Tai (Cymru) 2014

**2014 dccc 7**

**RHAN 3**

SIPSIWN A THEITHWYR

*Cwrdd ag anghenion llety*

**104 Methiant i gydymffurfio â'r ddyletswydd o dan adran 103**

(1) Os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod awdurdod tai leol wedi methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd a osodir gan adran 103 caniateir iddynt gyfarwyddo'r awdurdod i arfer ei bwerau o dan adran 56 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 i'r graddau y bo'n angenrheidiol er mwyn cwrdd â'r anghenion a nodwyd yn ei asesiad cymeradwy.

(2) Cyn rhoi cyfarwyddyd rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r awdurdod tai lleol y byddai'r cyfarwyddyd yn berthnasol iddo.

(3) Rhaid i awdurdod tai lleol gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir iddo.

(4) Mae'r canlynol yn berthnasol i gyfarwyddyd a roddir o dan yr adran hon—

(a) rhaid iddo fod yn ysgrifenedig;

(b) caniateir ei amrywio neu ei ddirymu gan gyfarwyddyd pellach;

(c) gellir ei orfodi gan orchymyn gorfodi ar gais gan Weinidogion Cymru, neu ar eu rhan.